Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643147 / 643694
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Mercher, 23 Chwefror 2022

Annwyl Cynghorydd,

**IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B)**

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) o bell drwy Timau Microsoft ar **Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022** am **10:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
   Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
   Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 3 - 8
   I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 08/11/19, 12/08/21 a 20/08/21.

4. Materion Brys
   I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

5. Gwahardd y Cyhoedd
   Nid oedd y cofnodion sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 18 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

   Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

6. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio 9 - 38

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion wedi'u eithrio cyfarfod y 12/08/21 a 20/08/21.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghowrwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| PA Davies | B Jones | JR McCarthy |
| RM James | JE Lewis | |

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD GWENER, 8 TACHWEDD 2019, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

RM James JE Lewis

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

51. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd PA Davies, y Cynghorydd JE Lewis a'r Cynghorydd RM James fuddiant personol ar eitem 3, gan eu bod yn adnabod y sawl sy'n ymgeisio, sydd yn Gynghorydd BCBS.

52. DEDDF TRWYDDEDU 2003 ADRAN 17, CAIS AM DRWYDDED SAFLE - TŶ OWEN, STRYD LLEWELLYN, NANTYMOEL, PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a oedd yn gofyn i Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 ystyried cais am drwydded safle ar gyfer y safle uchod. Cynghorodd fod y drwydded safle yn drwydded safle a oedd yn awdurdodi'r amrywiol weithgareddau trwyddedig ar y safle. Mae amseroedd gofynnol fel a ganlyn: Cyflenwi Alcohol: Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 18:00 - 23:00 awr Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu fod gwrthwynebiad i'r cais hwn gan breswylydd. Nid oedd y gwrthwynebiad wedi'i dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd; fodd bynnag, nid oedd y gwrthwynebydd yn bresennol. Roedd yr ymgeisydd, Mark Owen yn bresennol gyda'i gynrychiolydd cyfreithiol, Stuart Richards. Gofynnodd Y rheolwr Tîm - Trwyddedu i Mr Richards ddarparu manylion pellach i gefnogi cais Mr Owen. Eglurodd Mr Richards fod Mr Owen yn aelod o dîm pŵl ac yn chwaraewr yng Nghynghrair Pŵl Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch. Dywedodd fod tua 15 o dimau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Ychwanegodd fod Mr Owen fel arfer yn chwarae ar ddydd Llun a dydd Iau a'i fod yn bwriadu cynnal y digwyddiadau hyn yn ei ystafell gemau yn ei dŷ. Eglurodd Mr Richards mai'r ystafell gemau fyddai'r unig ystafell yn y tŷ a oedd â thrwydded i werthu alcohol ac felly ni fyddai gwesteion yn cael cludo'r alcohol a dalwyd amdano oddi ar y safle. Ychwanegodd Mr Richards fod Mr Owen eisoes wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ar ei safle ac wedi gwerthu alcohol drwy drwyddedau Digwyddiadau Dros Dro ac yn honni ei fod wedi cael tua 14. Esboniodd nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion gan y cyhoedd, trigolion na'r heddlu yn ystod y digwyddiadau hyn. Ychwanegodd Mr Richards mai'r rheswm yr oedd Mr Owen am wneud cais am drwydded barhaol oedd oherwydd ei fod yn rhatach ac yn fwy cyfleus na gwneud cais am drwydded Digwyddiad Dros Dro bob mis. Esboniodd Mr Richards fod Mr Owen yn deall pryderon y preswylydd o wrthwynebu'r cais hwn yn llawn. Roedd Mr Owen wrth gwrs wedi ystyried y maes chwarae i blant sydd y tu cefn i'w safle wrth ystyried y drwydded i werthu alcohol, a dyna pam fod y cais ar gyfer gwerthu dan do yn unig. Fodd bynnag, roedd Mr Richards yn ansicr pam fod Mr Owen wedi derbyn cwyn am y cais hwn ac nid am unrhyw geisiadau blaenorol, ac wedi cwestiynu dilysrwydd honiadau Mr Moore gan y sylwyd mai anaml yr oedd Mr Moore gartref, a honnodd mai dim ond ei fab oedd yn byw yn y cyfeiriad yn barhaol. Gofynnodd un aelod i Mr Richards sut y byddai hyn yn cael ei reoli, er enghraifft, pe bai gwestai eisiau mynd allan i ysmygu. Atebodd Mr Owen gan ddweud bod ganddo drwydded diogelwch

personol a'i fod am wylio'r drws ei hun i sicrhau nad oedd gwesteion yn gadael gydag alcohol. Eglurodd fod bin ar gyfer sigaréts y tu allan i'w safle hefyd er mwyn sicrhau bod y gwesteion yn cael gwared â sigaréts yn briodol. Eglurodd Mr Richards fod digon o lefydd parcio ar gael i'r nifer o westeion y byddai Mr Owen yn eu gwahodd ar unrhyw adeg benodol. Dywedodd fod lle i 3 char ar y dreif a 5 car ar waelod y dramwyfa, a oedd yn gyfanswm o 8 car. Fodd bynnag, nid oedd angen cymaint o geir â hynny erioed oherwydd bod nifer o'i westeion yn rhannu ceir gyda'i gilydd. Ychwanegodd fod y stryd yn stryd heb fodd mynd trwyddi, felly gall fod yn anodd i geir fynd i mewn ac allan o'r stryd, ond nid yw parcio erioed wedi bod yn broblem. Gofynnodd Aelod ai dim ond digwyddiadau pŵl yr oedd Mr Owen yn eu cynnal. Cadarnhaodd Mr Owen mai dim ond digwyddiadau pŵl oedd yn cael eu cynnal. Gofynnodd Aelod am ba hyd y bu Mr Owen yn cynnal digwyddiadau o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Dywedodd Mr Owen ei fod wedi bod yn cynnal tua un digwyddiad y mis am ychydig dros flwyddyn.

Ychwanegodd nad oedd wedi derbyn cwyn o'r blaen yn ystod y digwyddiadau blaenorol. Gofynnodd un aelod sut y bu i Mr Owen hysbysebu'r digwyddiadau hyn i'r preswylwyr, gan gynnwys y ceisiadau. Cadarnhaodd Mr Owen ei fod yn hysbysebu'r digwyddiadau ymlaen llaw drwy osod hysbysiadau o amgylch ei stryd. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach gan yr Aelodau, a gofynnwyd i Mr Owen a Mr Richards adael fel y gallai'r Pwyllgor wneud penderfyniad. Ar ôl ailgynnull:

<u>PENDERFYNWYD:</u> Mae'r penderfyniad fel a ganlyn:

"Mae'r Pwyllgor wedi ystyried eich cais a'r sylwadau a wnaethoch i gefnogi'ch cais. Mae'r Pwyllgor wedi clywed eich bod wedi cael 14 hysbysiad digwyddiad dros dro ac ni chafwyd unrhyw gwynion o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth nad oes unrhyw wrthwynebiadau na chynrychiolwyr gan yr heddlu na diogelwch y cyhoedd, a dim ond un gwrthwynebiad sydd i'r cais hwn. Nid yw'r Pwyllgor wedi priodoli unrhyw bwysau mawr i'r gwrthwynebiad hwn gan nad oes cyfeiriad ar yr e-bost ac nid yw'r gwrthwynebydd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor heddiw i gyflwyno gwybodaeth bellach. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth y bydd y cais hwn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac wedi penderfynu caniatáu'r cais. "

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD IAU, 12 AWST 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

B Jones JR McCarthy

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| David Graham (Cynghor) | |
| Katia Daw | Cyfreithiwr |
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

54. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

55. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra byddent yn ystyried yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 18 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitemau, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

56. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADRANNAU 53A I 53D CAIS AM ADOLYGIAD CRYNO GWESTY'R ORSAF, CAERAU, 1 HEOL CAERAU, CAERAU, MAESTEG, CF34 OPB

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD GWENER, 20 AWST 2021, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| PA Davies | B Jones | JR McCarthy |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

58. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

59. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra byddent yn ystyried yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 18 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitemau, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

60. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADRAN 167 ADOLYGIAD O DRWYDDED SAFLE YN DILYN GORCHYMYN CAU, GWESTY'R ORSAF, CAERAU, 1 FFORDD CAERAU, CAERAU, MAESTEG, CF34 OPB

Daeth y cyfarfod i ben am 11:22

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12, 18 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12, 18 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank